Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Orffennaf 2019

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Neil Pringle, Dyfed Jones. Siân Godbert, Nick Corney, Marion Betteney, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad – Janet Charlton.
Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb
Cofnodion
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 10fed Fehefin 2019.

[1] Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd
Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Gareth Wynne yn Gadeirydd a Gwawr Jones yn Is Gadeirydd

Materion yn codi
(1.1)Yr Heddlu
Roedd SCHG Jonathan Thomas a Daisy Devereau yn bresennol. Deallwyd bod peiriant Talu ac Arddangos wedi cael difrod a hefyd bod rhywun wedi torri i mewn i siop Cotswolds.
Nid oedd unrhyw fater arall.

[1.2] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.
Dywedodd y clerc bod astudiaeth dopograffaidd wedi ei drefnu.

[1.3] Rheolaeth Cae Llan
Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.
[a] Llogi'r Cae
[b] Datblygu cyflesterau

[1.4] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf
Nodwyd yn siomedig nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Edward Jones APCE.

[1.5] Siop Ultimate Outdoors / Cynnal y Llwybr Cerdded
Eglurodd y clerc bod y mater wedi ei anfon ymlaen gan Gyngor BS Conwy i'r Asiant Priffyrdd
Cytunodd y Cyng Elisabeth Roberts hefyd i wneud ymholiadau.

[1.6] Goleuadau Nadolig
Nodwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi trefnu i gwrdd gyda chynrychiolydd cwmni Blachere yn y dyfodol agos.

[1.7] Gwaharddiad Parcio Ffordd Craiglan
Nodwyd ymateb gan Gyngor BS Conwy i bryderon y Cyngor Cymuned

[1.8] Gwrych / Tan Dinas
Y clerc i gysylltu gyda'r perchennog i geisio cael tocio'r gwrych ar fin y ffordd

[1.9] Ffilmio yn y Rhaeadr Ewynnol
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[2] Ffordd yr A5 /Rhaeadr Ewynnol
Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r AS Guto Bebb ac Asiant Priffyrdd i drafod diogelwch ar y ffordd ger y Rhaeadr Ewynnol

[2.1] Siop Sglodion
Dywedodd y clerc iddo anfon llythyr yn gofyn am gael gwared a'r gwastraff. Deallwyd fod pridd wedi ei roi i'w guddio.

Y brif Agenda

[2] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mehefin 2019
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mehefin 2019.

[2.1] Cloc y Neuadd
Penderfynwyd trwsio'r cloc yn y neuadd.

[2.2] Cyfarfod APCE/Cyngor Cymuned
Cytunodd Dyfed Jones I gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod ym Mhlas y Brenin am 6.30 y.h ar y 30ain Fedi 2019.

[2.3] Dyfrio'r Blodau
Y clerc i gysylltu gyda Mr Tony Godbert i geisio mynediad i ystafelloedd newid y clwb peldroed ar gyfer cael dŵr. Cytunodd Nick Corney I ddarparu cymorth I Ms Fiona Jones gyda'r dyfrio.

[2.4] Mainc wedi torri
Y clerc i drefnu symud y fainc sydd ar fin yr afon gyferbyn a Maes Parcio Pont-y-Pair.

Cadeirydd_____